| | |
|---|---|
| **Rhif Cyfeirnod: BIP 020**<br>**Rhif y Fersiwn:**5a | **Dyddiad Adolygu Nesaf:** Gorffennaf 2028<br>**Rhif Cyfeirnod Blaenorol yr Ymddiriedolaeth/Bwrdd Iechyd Lleol:** TR59 / UHB 20 |

**GWEITHDREFN GWOBRWYO GWASANAETH HIR**

**Cyflwyniad a Nod**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y BIP) yn deall bod safonau uchel ac ansawdd y gwasanaethau y mae'n eu darparu yn dibynnu ar gyfraniad, ymdrech a theyrngarwch staff. Fel rhan o'r Cynllun Pobl a Diwylliant byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn cael eu gwobrwyo a'u cydnabod, yn anffurfiol ac yn ffurfiol, am y cyfraniad y maent yn ei wneud. Mae aelodau staff sydd wedi gwasanaethu am gyfnod hir yn dod ag arbenigedd gyda nhw sydd, ynghyd â dealltwriaeth o nodau a gwerthoedd y sefydliad, yn ffafriol i ddarpariaeth gofal cleifion sy'n effeithiol ac effeithlon. Bwriad y Cynllun Gwobrwyo Gwasanaeth Hir yw cydnabod ymrwymiad a theyrngarwch staff i'r Bwrdd Iechyd Prifysgol ac mae'n galluogi cydnabod a dathlu rhai 'cerrig milltir' penodol i wasanaethau.

**Amcanion**

- Nodi'r trefniadau i gydnabod gwasanaeth hir gweithwyr
- Sicrhau bod ymrwymiad staff yn cael ei wireddu a'i wobrwyo
- Cynghori gweithwyr a rheolwyr ar y prosesau sydd i'w dilyn

**Cwmpas**

Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i weithwyr sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd ac sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan BIP Caerdydd a'r Fro

| | |
|---|---|
| **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd** | Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd (AEGI) ar gyfer y Polisi Gweithlu Addasadwy a'r gweithdrefnau cysylltiedig, gan gynnwys yr un hon. Canfu hwn effaith gadarnhaol. |
| **Dogfennau i'w darllen law yn llaw â'r weithdrefn hon** | Polisi Gweithlu Addasadwy<br>Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol<br>Polisi a Gweithdrefnau Mamolaeth<br>Gweithdrefn Ymddeol<br>Polisi Seibiant Cyflogaeth GIG Cymru<br>Polisi Rheoli Cofnodion<br>Cynllun Pobl a Diwylliant |
| **Cymeradwywyd gan** | Is-grŵp Polisi Cyflogaeth |
| **Swyddog Gweithredol neu** | Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |

| | |
|---|---|
| **Gyfarwyddwr Bwrdd Clinigol Atebol** | |
| **Awdur(on)** | Cynghorydd Sicrwydd a Phrofiad Pobl / CNB |

**Ymwadiad**
**Os yw dyddiad adolygu'r ddogfen hon wedi bod, sicrhewch mai'r fersiwn yr ydyc yn ei defnyddio yw'r un fwyaf diweddar naill ai drwy gysylltu ag awdur y ddogfe neu'r Gyfarwyddiaeth Lywodraethiant.**

**Crynodeb o adolygiadau / diwygiadau**

| **Rhif y Fersiwn** | **Dyddiad Cymeradwyo Adolygiad** | **Dyddiad Cyhoeddi** | **Crynodeb o Ddiwygiadau** |
|---|---|---|---|
| 1 | | | Y prif newidiadau yw:<br>• Newid o Bolisi i Weithdrefn (cefnogi Polisi Gweithlu Addasadwy)<br>• Ychwanegu Rolau a Chyfrifoldebau<br>• Er nad yw seibiant cyflogaeth yn doriad mewn gwasanaeth, mae'n amlwg nad yw'r amser hwn yn cyfrif fel gwasanaeth parhaus ac felly mae'n cael ei anwybyddu wrth benderfynu a yw unigolyn yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd.<br>• Rhaid hawlio gwobrau teyrngarwch o fewn 2 flynedd wedi bodloni'r meini prawf cymhwysedd neu ni fyddant yn cael eu rhoi<br>• Mae rhybudd wedi ei ychwanegu y gall y cerdyn rhodd ddod i ben ac na fydd yn cael ei roi eilwaith oherwydd diffyg casglu<br>• Gwneud yn glir nad yw gwasanaeth cyn trosglwyddiad TUPE yn cyfrif |
| 5 | | | • Newid Teitl o Wobr Teyrngarwch i Wobr Gwasanaeth Hir |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | • Newid o gerdyn rhodd i e-daleb<br>• Ychwanegwyd/newidiwyd pwyntiau bwled yn yr Adran Gyfrifoldebau o ran y broses e-dalebau<br>• Tynnwyd y gofyniad i gyflwyno cais am Ddyfarniad Gwasanaeth Hir o fewn 2 flynedd wedi bodloni meini prawf cymhwysedd |
| 5a | 22.07.26 | 01/09/2026 | • Yn parhau heb ddiwygiadau |

## CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Rolau a Chyfrifoldebau | 5 |
| 2 | Meini Prawf Cymhwysedd | 5 |
| 3 | Gwerth y Wobr | 6 |
| 4 | Gweithdrefn | 6 |
| 5 | E-daleb | 7 |
| 6 | Dolen i ffurflen gais am Wobr Gwasanaeth Hir | 7 |
| | | |
| | | |
| | | |

## 1 ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

**Mae cyflogeion yn gyfrifol am:**

- Llenwi ffurflen Gais am Wobr Gwasanaeth Hir, gan sicrhau bod yr holl wybodaeth a ddarperir yn gywir ac yn gyfredol
- Gwneud cais am y Wobr Gwasanaeth Hir o fewn yr amserlenni a nodir yn y weithdrefn hon
- Darparu unrhyw dystiolaeth ategol y gallai fod ei hangen i helpu i ddatrys unrhyw ymholiadau cymhwysedd
- Defnyddio yr e-daleb cyn y dyddiad dod i ben

Mae **Rheolwyr Llinell** yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod eu gwasanaeth yn cael ei gydnabod a'i wobrwyo drwy ddiolch iddynt am eu gwasanaeth.
- I wirio'r daenlen sy'n cael ei hanfon atynt gan Gwasanaethau Pobl sy'n nodi unrhyw aelodau o staff yn eu hadran sy'n gymwys i wneud cais am eu Gwobr Gwasanaeth Hir.
- Sicrhau bod eu staff yn ymwybodol o'u cymhwysedd i wneud cais am wobr, o fewn yr amserlenni a nodir yn y weithdrefn hon
- Gwirio’r ffurflen gais, cadarnhau hyd y gwasanaeth trwy wirio tystiolaeth wedi'i dogfennu (e.e. CSE, ffeil bersonol, contractau cyflogaeth, slipiau cyflog)
- Cynghori'r gweithiwr y byddant yn derbyn yr e-daleb trwy e-bost er mwyn hawlio’r wobr,

Mae **Gwasanaethau Pobl** yn gyfrifol am:

- Gweinyddu'r broses
- Cynghori rheolwyr ynghylch staff a allai fod yn gymwys i wneud cais
- Cysylltu â rheolwyr a/neu'r gyflogres i gadarnhau hyd y gwasanaeth lle mae ymholiadau
- Gwneud trefniadau i'r aelod staff gyfarfod â'r Cadeirydd ac i dderbyn Tystysgrif i ddiolch am eu Gwasanaeth (os gofynnir amdano)
- Darparu cefnogaeth ac arweiniad ar y broses, gan gynnwys gwirio cyfnodau gwasanaeth

## 2 MEINI PRAWF CYMHWYSEDD

I fod yn gymwys am Wobr mae angen i unigolyn fod wedi cael ei gyflogi'n barhaus am naill ai 20 neu 30 mlynedd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro neu un o'i ragflaenwyr. Y rhain yw:

- Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro
- Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd
- Bwrdd Iechyd Lleol Bro Morgannwg
- Ymddiriedolaeth GIG yr Ysbyty Deintyddol Athrofaol
- Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty a Chymuned Llandochau
- Ymddiriedolaeth GIG a Gofal Iechyd Ysbyty Athrofaol Cymru

- Ymddiriedolaeth GIG Cymunedol Caerdydd
- Awdurdod Iechyd De Morgannwg

Ni fydd toriad mewn gwasanaeth parhaus at ddibenion y cynllun hwn yn fwy na 12 mis (ac eithrio seibiannau awdurdodedig e.e. absenoldeb mamolaeth, salwch tymor hir a seibiannau cyflogaeth). Bydd gwasanaeth cyn unrhyw doriad yn cael ei ddiystyru.

D.S. Nid yw seibiannau cyflogaeth yn cael eu cyfrif fel gwasanaeth felly mae angen i gyfanswm y gwasanaeth cyfanredol fod yn 20 neu 30 mlynedd plws hyd yr egwyl gyrfa er mwyn bod yn gymwys i gael gwobr.

Os yw unigolyn yn 'ymddeol ac yn dychwelyd' yn unol â Pholisi Ymddeol BIP, nid yw hyn yn cael ei gyfrif fel toriad yn y gwasanaeth at ddibenion y cynllun hwn.

Nid yw gwasanaeth cyn trosglwyddiad TUPE yn cyfrif at ddibenion y Weithdrefn hon.

## 3 GWERTH Y WOBR

Bydd y wobr yn seiliedig ar hyd y gwasanaeth fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Am 20 mlynedd rhodd gwerth | £100 |
| Am 30 mlynedd neu fwy rhodd gwerth | £150 |

Bydd gwerth y wobr yn cael ei adolygu fel rhan o'r broses o adolygu gweithdrefnnau.

## 4 GWEITHDREFN

Bob blwyddyn bydd Gwasanaethau Pobl yn defnyddio'r Cofnod Staff Electronig (CSE) i roi i reolwyr rest o staff a allai fod yn gymwys i wneud cais am Wobr Gwasanaeth Hir.

Bydd y rheolwr llinell perthnasol yn gwirio hyd y gwasanaeth ac yn llenwi'r ffurflen gais gyda'r aelod staff.

Dylai'r rheolwr llinell gadw copi ar y ffeil bersonol ac anfon y ffurflen gais ymlaen i'r adran Gwasanaethau Pobl er mwyn cadarnhau hyd y gwasanaeth a phrosesu. Ar ôl ei wirio, bydd Gwasanaethau Pobl yn cysylltu â'r rheolwr llinell i'w hysbysu sut y bydd y Wobr yn cael ei chynhyrchu.

Caiff pob aelod o staff yr opsiwn o gael cyflwyniad a chael tystysgrif gan y Cadeirydd/Cyfarwyddwr Gweithredol neu'r Aelod Annibynnol yn eu gweithle i gydnabod hyd eu gwasanaeth fel ffordd o ddangos ein hymrwymiad i'r cynllun hwn ac i ddangos ein bod yn gwerthfawrogi ein gweithwyr sy'n gwasanaethu ers amser maith. Os yw'r aelod staff am dderbyn cyflwyniad, bydd Gwasanaethau Pobl yn gwneud trefniadau.

## 5 E-DALEBAU

Bydd yr Adran Gwasanaethau Pobl yn cysylltu â'r cwmni (au) e-dalebau ynghylch prynu e-dalebau. Yna bydd y cwmni(au) yn codi anfonebau a'u trosglwyddo i'r Adran Gwasanaethau Pobl er mwyn dilysu a phrosesu.

Ni fydd dewis arall o arian parod i'r e-daleb.

**Gall yr e-daleb a roddir fod â dyddiad dod i ben. Mae gweithwyr yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn ei actifadu cyn hyn gan na fydd y BIP yn eu hailgyhoeddi os byddant yn dod i ben**.

## 6 FFURFLEN GAIS GWOBR GWASANAETH HIR

Dolen i ffurflen gais am Wobr Gwasanaeth Hir